



Llywodraeth Cymru

Ymgynghori – crynodeb o'r ymatebion

Cais am Dystiolaeth

Adolygu'r Polisi Presennol ar Waredu Gwastraff
Ymbelydrol Uwch ei Actifedd

Hydref 2014

Cyflwyniad

1. Polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA) ers 2008 yw peidio â chefnogi, nac ychwaith wrthwynebu polisi gwaredu daearegol y Deyrnas Unedig tra'n parhau i chwarae rhan lawn yn y Rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel. Fodd bynnag, nododd, pe bai cymuned yng Nghymru yn dymuno mynegi diddordeb mewn cynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) o bosibl, y byddai'n ystyried ei safbwynt bryd hynny.
2. Yn 2014 penderfynodd Llywodraeth Cymru lansio cais am dystiolaeth¹ yn ceisio barn ynghylch a ddylid adolygu'r polisi ynglŷn â gwaredu GUA, ac os felly, pa opsiynau y dylid eu hystyried. Ymrwymodd y cais am dystiolaeth y byddai unrhyw adolygiad o'r fath, pe câi ei gynnal, yn cael ei gynnal mewn ffordd gynhwysol a thryloyw.
3. Lansiodd y cais am dystiolaeth ar 29 Ebrill a daeth i ben ar 24 Mehefin 2014.
4. Cyflwynwyd 25 o ymatebion unigol i gyd gan gynnwys, *ymhlith eraill*, sefydliadau anlywodraethol, awdurdodau lleol, rheoleiddwyr, y diwydiant niwclear ac aelodau o'r cyhoedd.
5. Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion yn tynnu sylw at y prif themâu sy'n deillio o'r ymatebion a gyflwynwyd. Caiff yr ymatebion llawn eu cyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru (oni bai bod yr ymatebwr wedi gofyn inni beidio â gwneud hynny) am resymau tryloywder. Gellir gweld matrices dadansoddi sy'n rhoi crynodeb o'r prif bwyntiau a wnaed yn yr ymatebion hefyd.

¹ www.wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/disposing-of-higher-activity-radioactive-waste/?lang=cy

Cefndir

6. Cyhoeddwyd y cais am dystiolaeth i geisio barn pobl Cymru ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad llawn o'i pholisi presennol, fel y'i nodwyd ym Mhapur Gwyn 2008², ac os felly pa opsiwn gwaredu y dylai ei ystyried. Ceir y rhestr lawn o gwestiynau yn Atodiad 1.
7. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai fod yn briodol bellach, am nifer o resymau a drafodir yn fanwl yn y cais am dystiolaeth, i adolygu ein polisi, gan gynnwys: yr angen i gydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Gweddillion Tanwydd a Gwastraff Ymbelydrol; mae safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn â gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd sy'n bodoli eisoes wedi newid ers i'r polisi gael ei fabwysiadu; ac mae Llywodraeth y DU wedi ailddechrau ei phroses leoli ar gyfer CGD yn Lloegr. Am y rhesymau hyn a'r rhesymau pellach a amlinellwyd yn y cais am dystiolaeth, daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad y gallai fod angen adolygu ein polisi er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn briodol o hyd i anghenion Cymru.
8. Lansiodd y cyn-Weinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd y cais am dystiolaeth ar 29 Ebrill 2014 a chyhoeddwyd y ddogfen ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i aelodau o'r cyhoedd ymateb drwy gyflwyno'r ffurflen ymateb, naill ai drwy e-bost neu drwy'r post.

² <https://www.gov.uk/government/publications/managing-radioactive-waste-safely> (Saesneg)

Crynodeb

9. Mae'r ymatebion i'r cais am dystiolaeth wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru³. Ceir crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn yn yr adran hon.
10. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gyflwynwyd ac yn tynnu sylw at y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn y cais am dystiolaeth. Mae ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r ymatebion hyn ym Mhennod 2 o'r Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Bolisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch Ei Actifedd.

Sut rydym wedi dadansoddi'r ymatebion?

11. Mewn rhai achosion, nid atebodd ymatebwyr y cwestiynau yn y cais am dystiolaeth, ond gwnaethant sylwadau ar faterion cysylltiedig eraill. Yn yr achosion hyn rydym wedi cynnwys ystyriaeth o'r pwyntiau hynny fel rhan o'r ymatebion i Gwestiwn 4: "A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd?" Yn y modd hwn, mae pob barn a gyflwynwyd wedi cael ei hystyried. Wrth asesu ymatebion i gwestiynau unigol rydym felly wedi nodi canran a nifer yr ymatebion a atebodd y cwestiwn a chyfran yr ymatebion hynny a fabwysiadodd safbwynt penodol.

Cwestiwn 1: A ddylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisi presennol ar waredu GUA?

Cytunodd 94% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn a 64% o gyfanswm yr ymatebwyr y dylid adolygu'r polisi ar waredu GUA.

12. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 17 o'r 25 o ymatebion a gyflwynwyd. Cytunodd 16 o'r rhain y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisi.
13. Y rheswm mwyaf cyffredin dros gefnogi adolygiad (6 o'r 16) oedd y byddai'n rhesymegol o ystyried y cynigion ar gyfer yr Wylfa Newydd a'r symiau

³ www.wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/disposing-of-higher-activity-radioactive-waste/?lang=cy

cynyddol o GUA a fydd yn deillio o'r datblygiad hwn. Dadleuwyd yn gryf hefyd ei bod yn anghyfrifol i Lywodraeth Cymru gefnogi polisi o adeiladu gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, heb ystyried gwaredu'r gwastraff a gynhyrchir o ganlyniad i hynny.

14. Dywedodd rhai fod y gwahanol resymau fel y'u hamlinellwyd yn y cais am dystiolaeth yn rhesymau priodol a digonol dros gynnal adolygiad o'r polisi.

15. Ymhlith y rhesymau eraill a roddwyd mae'r farn bod peidio â mynegi barn am y tro yn arwain at ansicrwydd ac yn dangos diffyg arweinyddiaeth, mae rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y caiff GUA ei reoli'n effeithiol ac ers i'r polisi presennol gael ei fabwysiadu mae cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu fframwaith [gan Lywodraeth y DU] ar gyfer gweithredu gwaredu daearegol ac mae'r Alban wedi mabwysiadu polisi o storio ar yr wyneb neu wrth ymyl yr wyneb - y bydd angen ystyried y naill a'r llall mewn perthynas â pholisi Cymru.

Cwestiwn 2: Ymgwymerodd CoRWM â gwaith helaeth cyn argymhell gwaredu daearegol yn ei adroddiad yn 2006 a chadarnhaodd yr argymhelliad hwnnw yn 2013. Yng ngoleuni hyn os bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisi presennol a ddylai gyfyngu ei hystyriaeth o opsiynau gwaredu ar gyfer GUA i waredu daearegol?

Teimlai 46% o'r rhai a atebodd y cwestiwn a 24% o gyfanswm yr ymatebwyr y dylai adolygiad gael ei gyfyngu i ystyried gwaredu daearegol fel yr opsiwn ar gyfer gwaredu GUA.

16. Gwnaeth 13 o'r ymatebion a gyflwynwyd ateb y cwestiwn, neu roedd yr ystyr yn amlwg o'r ymateb a roddwyd. O blith y rhain nododd chwech y dylai adolygiad gyfyngu ei ystyriaethau i waredu daearegol fel yr opsiwn ar gyfer gwaredu GUA.

17. O blith yr ymatebwyr a oedd o'r farn y dylai'r adolygiad gael ei gyfyngu i waredu daearegol teimlai'r mwyafrif llethol fod argymhellion CoRWM yn seiliedig ar waith ymestynnol a rhesymau gwyddonol cadarn. Byddai adolygiad o'r opsiynau hyn yn ddiangen, byddai'n mynd dros yr un tir a gall hyd yn oed fod yn gamddefnydd o arian cyhoeddus. At hynny, nododd rhai nad oedd unrhyw dystiolaeth eithaf cymhellol wedi dod i'r amlwg ers argymhellion CoRWM fod opsiwn amgen dichonadwy.

18. Cyflwynodd ychydig o ymatebwyr y ddadl, ochr yn ochr â gwaredu daearegol, y gallai rhai o'r mathau o wastraff ar y stocrestr o GUA fod yn addas ar gyfer dulliau gwaredu amgen ac y dylid ystyried y rhain.
19. O blith yr ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi cyfyngu adolygiad i waredu daearegol (54% o'r rhai a atebodd y cwestiwn), roedd thema amlwg o ddiffyg ffydd yng ngallu gwaredu daearegol i ynysu'r gwastraff yn llwyddiannus. Teimlai rhai y byddai cyfleuster gwaredu daearegol yn golygu bod y gwastraff yn agored o hyd i ddaeareg newidiol, tarfu seismig a chysylltiad â'r lefel trwythiad. At hynny, teimlai saith o ymatebwyr na fyddai modd sicrhau diogelwch cyfleuster dros y cyfnod angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y gwastraff wedi'i ynysu nes bod lefelau ymbelydredd yn cyrraedd lefelau cefndir (250,000 o flynyddoedd) am nifer o resymau, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, daeareg newidiol, sefydlogrwydd economaidd a gwleidyddol.

Cwestiwn 3: Os dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau gwaredu heblaw am waredu daearegol, pa opsiynau eraill y dylai eu hystyried

O blith y 13 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 77% o blaid storio ar yr wyneb neu wrth ymyl yr wyneb, gan nodi'n bennaf y dylai hyn fod wrth ymyl y safle.

Roed 23% o'r farn y dylid ystyried pob opsiwn dichonadwy neu bob opsiwn a adolygwyd gan CoRWM.

20. Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan 48% o'r ymatebwyr (12). Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y rhai nad oedd modd casglu eu barn ar y cwestiwn hwn o'r ateb a roddwyd ganddynt, y rhai a deimlai y dylai opsiynau gael eu cyfyngu i waredu daearegol ac felly na roddwyd barn, neu'r rhai a nododd mai'r unig opsiwn oedd peidio â chynhyrchu GUA.
21. O blith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol, mae 54% (7) yn awgrymu eu bod o blaid polisi tebyg i'r un a fabwysiadwyd gan yr Alban (storio wrth ymyl y safle, ar yr wyneb neu wrth ymyl yr wyneb). Nododd 23% arall y dylai GUA gael ei storio ar yr wyneb. Teimlai 23% o ymatebwyr y dylid adolygu pob opsiwn posibl, neu bob opsiwn a ystyriwyd yn wreiddiol gan CoRWM.

C4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd?

22. Codwyd amrywiaeth o faterion o dan y cwestiwn hwn gan yr ymatebwyr, fodd bynnag cododd ychydig o themâu dro ar ôl tro. Y brif thema oedd galw ar Lywodraeth Cymru i dynnu'n ôl ei chefnogaeth i unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd a fydd yn arwain at gynhyrchu mwy o GUA. Pwysleisiodd rhai y dylid buddsoddi mewn mathau adnewyddadwy o ynni yn lle hynny, ond roedd eraill am weld y polisi ar adeiladu gorsafoedd newydd yn cael ei atal dros dro nes bod llwybr gwaredu GUA ar waith. Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr hyn wedi mynegi barn ynglŷn â pha opsiynau y dylid eu defnyddio i waredu'r GUA presennol.
23. Codwyd mater lleoli cyfleuster gwaredu daearegol ar Ynys Môn hefyd yn yr ymatebion a gyflwynwyd. Roedd rhai ymatebwyr fel pe baent yn teimlo mai dyna'r cwestiwn yr oedd y cais am dystiolaeth yn ei godi.
24. Roedd rhai ymatebion wedi codi materion a oedd yn ymwneud â CoRWM, gan gynnwys haeriadau bod Llywodraeth y DU wedi methu â mabwysiadu pob un o argymhellion CoRWM a bod cyfarfod cyhoeddus gan CoRWM sydd i'w gynnal yn ddiweddarach eleni wedi cael ei drefnu er mwyn ceisio annog y gymuned i wirfoddoli i fod y rhan o'r broses o leoli CGD. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio'r pwyntiau hyn at CoRWM i'w hystyried a bydd yn cyhoeddi ei ymateb.

Y Camau Nesaf

25. Ar ôl dadansoddi ymatebion a gyflwynwyd i'r cais am dystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol cynnal adolygiad llawn o bolisi ar waredu GUA er mwyn sicrhau bod ganddi bolisi ar waith sy'n diwallu anghenion pobl Cymru. Caiff hyn ei wneud mewn ffordd gynhwysfawr a thryloyw a fydd yn rhoi cyfle i bobl Cymru leisio barn a chwarae rhan lawn yn y broses.
26. Y cam cyntaf yn y broses hon yw ymgynghoriad cyhoeddus, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen gryno, ynglŷn ag egwyddorion polisi gwaredu. Cafodd yr ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r ddogfen ymgynghori hon sydd hefyd yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd.
27. Cyhoeddir yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru⁴.
28. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, neu gopi o'r ddogfen ymgynghori, cysylltwch â'r canlynol:

Y Gangen Ymbelydredd ac Atal Llygredd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: RPPmailbox@cymru.gsi.gov.uk

⁴ www.wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/disposing-of-higher-activity-radioactive-waste/?lang=cy

Atodiad 1

Cwestiynau'r Cais am Dystiolaeth

C1. A ddylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisi presennol ar waredu GUA?

C2. Ymgwymerodd CoRWM â gwaith helaeth cyn argymhell gwaredu daearegol yn ei adroddiad yn 2006 a chadarnhaodd yr argymhelliad hwnnw yn 2013. Yng ngoleuni hyn os bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisi presennol a ddylai gyfyngu ei hystyriaeth o opsiynau gwaredu ar gyfer GUA i waredu daearegol?

C3. Os dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau gwaredu heblaw am waredu daearegol, pa opsiynau eraill y dylai eu hystyried?

C4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd?